



Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020

Pwyllgor Monitro'r Rhaglen - Cyfarfod 6
 Dydd Mawrth 9 Mai 2017 10.30am
 Gwesty'r Rivercourt, Kilkenny, Iwerddon

		Papurau
	10:15 – 10:30 Te a Choffi ar ôl cyrraedd	
1	10:30 – 10:45 Croeso, Agoriad a Chyflwyniad - Y Cadeirydd Stephen Blair a'r Cyd-gadeirydd Damien O'Brien	
2	10:45 – 10:55 Cofnodion Cyfarfod 5 Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, gan gynnwys y pwyntiau gweithredu – 24 Tachwedd 2016 Corc –	IWPMC1420(06)01
3	10:55 – 11:10 Pontio o'r UE – Damien O'Brien	Ar lafar
4	11:10 – 11:20 Diweddariad rhaglen - Awdurdod Rheoli – Mike Pollard	Ar lafar
5	11:20 - 11:30 Adroddiad Diweddariad a Datblygu ar y Rhagle - Cyd-ysgrifenyddiaeth – Linda Weaver/Swyddogion	IWPMC1420(06)02
6	11:30 – 11:45 Diweddariad Cyfathrebu – Jane McMillan / Mike Pollard	IWPMC1420(06)03
7	11:45 – 12:00 Monitro a Gwerthuso – Diweddariad Adroddiad Gweithredu Blynyddol	IWPMC1420(06)04
	12:00 – 13:00 Cino	
8	13:00 – 14:00 pISCES – prosiect cymeradwy	Cyflwyniad gan bartneriaid

9	14:00- 14:15 Unrhyw Fater Arall/Dyddiad y cyfarfod nesaf	
---	---	--

IRELAND WALES
2007 – 2013



Cyfarfod 17 Pwyllgor Monitro'r Rhaglen 2007-2013

		Papurau
1	14:15 – 14:30 Adroddiad Gweithredu Terfynol 2007-2013 (gan gynnwys y sefyllfa ar gau rhaglenni)	PMC 17 01
2	14:30 Unrhyw Fater Arall	

Cyd-ysgrifenyddiaeth – Mai 2017



Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020
Pwyllgor Monitro'r Rhaglen – Cyfarfod 6
Gwesty'r Rivercourt, Kilkenny, Iwerddon
9Mai 2017
Cofnodion

Dangosir rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn Atodiad 1.
Dangosir rhestr o ymddiheuriadau yn Atodiad 2.

Eitem Agenda 1 – Croeso – Agoriad a Chyflwyniadau

1. Croesawodd y Cadeirydd, Stephen Blair (SB), yr aelodau i Kilkenny a chweched cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020. Nododd y Cadeirydd nifer o aelodau newydd o gwmpas y bwrdd a gofynnodd i'r holl aelodau newydd gyflwyno'u hunain.
2. Croesawodd SB Damien O'Brien (DO'B) i gyd-gadeirio'r cyfarfod, gan nodi ei ddarpar ymadawiad o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Croesawodd SB Swyddog Desg newydd yr UE, Marianne Van De Vorle i'w chyfarfod cyntaf o Bwyllgor Monitro'r Rhaglen.
3. Gwnaeth DO'B ychydig o sylwadau rhagarweiniol. Diolchodd i SB a'i gydweithwyr am eu lletygarwch y noson cyn y cyfarfod. Diolchodd DO'B i'r aelodau o Gymru am deithio i'r cyfarfod, gan nodi bod nifer mawr ohonynt yn dirprwyo ar gyfer cydweithwyr. Cyflwynodd DO'B ei olynydd, Sioned Evans (SE), gan gadarnhau y byddai'n cymryd drosodd fel Prif Swyddog Gweithredol WEFO ymhen ychydig o wythnosau. Diolchodd DO'B am gyfraniad Patricia Hennessey a'i chyfeillgarwch teyrngar a chadarn yn ystod ei chyfnod ar y rhaglen. Croesawodd DO'B olynydd Patricia, Michael McGrath, i'r rhaglen.
4. Roedd yn briodol bod dirprwyaethau Iwerddon a Chymru yma ar Ddiwrnod Ewrop. Rhoddwyd gwybod i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen bod Prifysgol Aberystwyth wedi trefnu digwyddiad yn dangos y pedwar gweithrediad cymeradwy y mae ganddi gysylltiadau â hwy, sef CHERISH, Acclimatize, ECOstructure a BLUEFISH. Croesawodd DO'B y sylw diweddar ar y teledu gan y BBC o weithrediad CHERISH.
5. Nododd SB, oherwydd nifer mawr yr ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod heddiw, y byddent yn cael eu cofnodi yn y cofnodion. Mae Atodiad 2 yn cyfeirio at hyn.

Eitem Agenda 2 – Cofnodion Cyfarfod 5 Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, gan gynnwys pwyntiau gweithredu – 24 Tachwedd 2016 Corc

6. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yng Nghorc ym mis Tachwedd 2016 fel cofnod gwir o'r cyfarfod. Nid oedd pwyntiau gweithredu penodol o gyfarfod Corc.

Eitem Agenda 3 Diweddariad Pontio o'r UE

7. Cyflwynodd SB y pwnc fel un sydd wedi bod yn destun trafod i'r ddwy wlad ac un yr oedd angen i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen fod yn ymwybodol ohono wrth i ni gyflwyno'r rhaglen bresennol a'i gweithredu'n llwyr. Rhoddodd SB wahoddiad i DO'B siarad ar ran Llywodraeth Cymru a Gearoid O'Keefe (GOK) i wneud sylwadau ar safbwynt Llywodraeth Iwerddon.
8. Cyfeiriodd DO'B at Etholiad Cyffredinol y DU oedd ar fin cael ei gynnal. I Lywodraeth Cymru, 'busnes fel arfer' ydoedd i raddau helaeth. Fodd bynnag, fel gweision sifil, roedd yn rhaid i swyddogion fod yn ymwybodol o gynnwys unrhyw drafodaeth oedd yn cael ei chynnal.
9. Roedd pethau wedi datblygu ers i Des Clifford, Prif Ysgrifennydd Preifat Prif Weinidog Cymru roi diweddariad i gyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yng Nghorc. Pwysleisiodd DO'B fod Rhaglen Iwerddon Cymru yn parhau i fod yn gwbl agored ar gyfer busnes a bod partneriaid rheoli'r Rhaglen yn benderfynol o'i gwneud yn llwyddiant. Esboniodd DO'B mai uchelgais WEFO, yn dilyn tanio Erthygl 50, oedd neilltuo holl gyllid y rhaglen erbyn diwedd 2018 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gwarant oes gyfan Trysorlys y DU ar gyfer holl brosiectau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a gymeradwywyd cyn i'r DU adael yr UE. Roedd y Warrant hon yn cynnwys rhaglenni cydweithredu ac felly'n cynnwys rhaglen Iwerddon Cymru.
10. Roedd Iwerddon Cymru mewn sefyllfa dda gyda llawer o weithrediadau yn Echel Blaenoriaeth 1 ac Echel Blaenoriaeth 2 a'r disgwyliad i ddarpar gais Echel Blaenoriaeth 3 gefnogi uchelgais y Rhaglen i neilltuo erbyn y terfyn amser a nodwyd yn flaenorol. Ar yr amod bod y cyllid yn cael ei neilltuo, nododd DO'B y byddai'n ddiogel hyd at 2023. Nododd DO'B fod llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar wefan Brexit Llywodraeth Iwerddon a oedd yn addysgiadol iddo. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn - 'Diogelu Dyfodol Cymru' a ddatblygwyd ar y cyd â Phlaid Cymru, y brif wrthblaid. Roedd y ddwy blaid wedi ymgyrchu dros "aros" ond yn parchu pleidlais y bobl. Roedd Llywodraeth Cymru wedi

canolbwyntio ar sicrhau'r cytundeb gorau i Gymru. Roedd trafodaethau heriol i ddod. Fodd bynnag, pennodd y Papur Gwyn gynllun cynhwysfawr a chredadwy i sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn parhau i gael y prif sylw. Y brif flaenoriaeth oedd sicrhau bod Cymru yn cadw mynediad at y farchnad sengl o ystyried bod 67% o allforion Cymru yn mynd i'r farchnad honno (yn enwedig amaethyddiaeth a bwyd) ac, yn ail, gadw'r lefelau presennol o gyllid i Gymru fel buddiolwr net o gyllid yr UE - £680 miliwn y flwyddyn a £370 miliwn y flwyddyn o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Roedd Cymru wedi cael gwybod na fyddai'n colli ceiniog ac roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu dwyn Llywodraeth y DU i gyfrif ar hyn.

11. Thema gref arall oedd gwthio am drefniadau pontio synhwyrol, gyda'r amcan o osgoi unrhyw opsiwn peryglus i gynnwys cwblhau rhaglenni 2014-2020. Roedd rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud, gyda Llywodraeth y DU bellach yn sôn am gyfnod gweithredu pontio posibl. Roedd canlyniad Etholiad Cyffredinol y DU yn debygol o ddylanwadu ar gyfeiriad hyn.
12. Rhoddodd DO'B sicrwydd i'r aelodau bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw Cymru fel gwlad agored sy'n ymgysylltu'n rhyngwladol a phwysleisiodd ei hawydd i gynnal mynediad at drefniadau cydweithio a chryfhau'r berthynas rhwng y ddwy wlad ar ôl i'r DU adael yr UE; roedd dyfnhau'r berthynas yn uchelgais a rannwyd gan y ddwy Lywodraeth ac roedd y neges hon wedi'i hatgyfnerthu ar lefel Weinidogol. Gan godi dyfyniad o'r Papur Gwyn, nododd DO'B fod gan Gymru "...berthynas gydweithio neilltuol o agos gyda Gweriniaeth Iwerddon, ein cymydog dros y môr, drwy'r Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Rydym yn dymuno parhau â'r cydweithio hwn ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'n bosib y bydd cydweithredu o'r fath hyd yn oed yn bwysicach pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ac rydym wedi ymrwymo'n arbennig i gryfhau'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon."
13. Roedd Llywodraeth Cymru yn debygol o gyhoeddi nifer o ddogfennau yn y dyfodol, gan gynnwys un ynghylch polisi economaidd rhanbarthol. Un thema gref debygol fyddai anogaeth a chefnogaeth ar gyfer cydweithredu ar draws ffiniau rhanbarthol rhwng Cymru a'r DU, Cymru ac Iwerddon ac yn rhyngwladol. Caiff rhagor o drafodaethau eu cynnal ag aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn y dyfodol pan fydd papur wedi'i lunio.
14. Cyfeiriodd GO'K at bapur sefyllfa Llywodraeth Iwerddon ar Brexit yn pennu ei blaenoriaethau ar gyfer trafod â'r Comisiwn a gyhoeddwyd yr

wythnos diwethaf ar y wefan a enwyd yn flaenorol. Roedd Iwerddon Cymru yn un o dair rhaglen drawsffiniol gyda'r DU yn werth €650m ac roedd Llywodraeth Iwerddon wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf ynghylch ei hymrwymiad i barhau â'r rhaglenni hyn a oedd wedi cynnwys dros 20 mlynedd o gydweithrediad gwerthfawr. Roedd Gweinidogion Cymru ac Iwerddon wedi cyfarfod ym mis Hydref 2016 ac roedd y ddwy Lywodraeth yn ystyried rhaglen olynol ar ôl 2020 a chydweithrediad parhaus rhwng y ddwy wlad. Nododd GO'K fod Llywodraeth Iwerddon wedi sicrhau bod cymal diogelu'n cael ei osod mewn trefniadau ariannu prosiectau i roi hyder i fuddiolwyr rhaglen a rhywfaint o sicrwydd i fuddsoddi yn Iwerddon Cymru yn ystod ei hamserlen.

15. Cyfeiriodd GO'K at ddull tri cham Llywodraeth Iwerddon yn y cyddestun hwn:-

- i. Tymor byr – y prif amcan yw sicrhau sicrwydd cyllid ar gyfer oes rhaglenni 2014-2020;
- ii. Tymor canolig – yr amcan yw i Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd gael eu gweithredu'n llwyddiannus hyd at ddiwedd cyfnod y rhaglen, gan gynnwys cyflawni targedau gwariant N+3, a
- iii. Tymor hir – plygu meddyliau i lunio Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd olynol ar ôl 2020.

16. Pwysleisiodd GO'K bwysigrwydd proses weithredu lwyddiannus, yn benodol parhau â lefelau neilltuo ariannol yn gyflym ac wrth i'r rhaglen gyrraedd ei chanolbwynt, i gyllid gael ei dynnu i lawr a'i wario ni waeth beth yw goblygiadau Brexit.

17. Cefnogodd Marianne Van De Vorle (MV) y dull busnes fel arfer, ond nid oedd yn gallu gwneud rhagor o sylwadau ynghylch ymadawiad y DU o'r UE a'r trafodaethau i ddod.

18. Codwyd ymholiadau ynghylch y defnydd ymarferol o'r llif arian i fuddiolwyr o ystyried yr amserlen a bennwyd gan Warant Trysorlys y DU. Cydnabu GO'K y mater a fyddai'n dibynnu ar sut y byddai'r DU yn parhau i gyfrannu at y fframwaith amlflwydd – roedd elfen y DU o'r cyllid wedi'i gwarantu, ond ni ellid pennu'r dulliau ar gyfer sut y byddai cyllid yn llifo yn y cyswllt hwn.

19. Roedd GO’K yn ystyried cymal diogelu’r contract fel modd o adolygu’r manylion ynghylch sut y bydd y dulliau ariannu’n gweithio. Nododd GO’K, wrth i drafodaethau ddatblygu ynghylch ymadawiad y DU o’r UE, y bydd y cymysgedd o gyllid yn rhan o’r trafodaethau hyn. Y pwynt pwysig oedd bod y cyllid a’r ymrwymiad hwn yno a’r dulliau o ryddhau cyllid i’r buddiolwr yn fanylion y bydd angen eu hystyried ymhellach. Pwysleisiodd GO’K bwysigrwydd y trefniadau pontio a disgwylodd y gallai llawer o’r atebion gael eu datrys yn y cyfnod hwn.
20. Cadarnhaodd DO’B mai uchelgais yr ARh oedd gwneud y gorau o’r lefelau hyder mewn prosiectau yn ystod y cyfnod pontio o’r UE. Nod yr ARh oedd sicrhau y caiff taliadau eu gwneud fel arfer i’r buddiolwyr gyda’r bwriad o wneud y cyfnod pontio mor ddiraffferth â phosibl. Y Llywodraethau fyddai’n penderfynu ar y dulliau a’r cymysgedd o daliadau. Roedd yr ARh yn gweithio ar y dybiaeth y bydd cyn lleied o darfu â phosibl i’r buddiolwyr. Nodwyd y gall fod angen sicrwydd ychwanegol ar fuddiolwyr preifat o ystyried y problemau llif arian posibl.
21. Gan ateb ymholiad sy’n awgrymu angen i addasu’r Rhaglen a’i dangosyddion i ymateb i Brexit a’i heffaith ar fusnesau a chadwyni cyflenwi, cyfeiriodd y Cadeirydd at natur amlflwydd y Rhaglen a’r adolygiad tymor canolig i asesu effaith y rhaglen. Fodd bynnag, mewn realiti, byddai’r cyfle i wneud pethau’n wahanol i adlewyrchu’r realiti newydd yn gyfyngedig o ystyried y bydd y rhan fwyaf o’r cyllid wedi’i neilltuo ar hyn o bryd.
22. Pwysleisiodd DO’B yr angen i fod yn realistig wrth bennu’r hyn y gall y rhaglen ei gyflawni’n wirioneddol o ystyried maint cyfyngedig ei chyllideb. Bydd nifer o weithrediadau’n cynorthwyo’r rhaglen yn fwy strategol o ran ymdrin â’r adladd yn sgil ymadawiad y DU â’r UE. Roedd ymweliad diweddar â CALIN wedi tanlinellu sut y byddai’r prosiect angori hwn yn rhoi hwb i gysylltiadau masnach a busnes rhwng Iwerddon a Chymru ac nid oedd amheuaeth y gallai prosiectau eraill fynd i’r afael â rheidrwydd cynnal cysylltiadau economaidd cryf.
23. Dywedodd GO’K, heblaw am Brexit, fod y math hwn o fater yn un oedd yn berthnasol ar draws Ewrop wrth i newid ddigwydd gan fod y mathau hyn o raglenni amlflwydd â gallu cyfyngedig i addasu, gyda’r argyfwng mudo’n enghraifft. Roedd yn teimlo bod hyn yn rhan o drafodaeth polisi cydlyniant ehangach o lawer gan y dylid ei gwneud yn haws i raglenni ymateb pan oedd angen iddynt wneud hynny.

Eitem Agenda 4 - Diweddariad Rhaglen – Awdurdod Rheoli

24. Cafwyd diweddariad ARh cryno gan Mike Pollard (MP). Ar nodyn technegol, roedd gweithdrefn ysgrifenedig wedi'i lansio ar 23 Mawrth er mwyn sicrhau ymgorffori gweddill y dangosyddion canlyniadau ar gyfer PA1 a PA2. Yn dilyn cytundeb PMRh i newidiadau i ddogfen y Rhaglen, cyflwynwyd addasiad i'r Comisiwn yn unol â'r Rheoliadau. Mae'r ARh yn aros am ymateb gan y Comisiwn Ewropeaidd.
25. Rhoddodd MP y diweddaraif i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen ar ail gyfarfod Pwyllgor Llywio'r Rhaglen a gynhaliwyd yn Nulyn ym mis Chwefror. Roedd y cyfarfod wedi helpu i ddatblygu perthnasoedd wyneb yn wyneb er mwyn cefnogi gwaith Pwyllgor Llywio'r Rhaglen a wnaed drwy'r Porth ar-lein. Er i'r Porth gael ei ddylunio i hwyluso dull effeithiol o wneud penderfyniadau'n rhithwir, myfyriodd MP ar bwysigrwydd parhau â chyfarfodydd wyneb yn wyneb lle y gallent gael eu trefnu.
26. Tynnodd MP sylw Pwyllgor Monitro'r Rhaglen at Gyfarfod Blynyddol Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd 2017 y Comisiwn a gefnogir gan Lywyddiaeth Malta ac a gynhelir ddiwedd mis Ebrill. Roedd wedi ymuno ag Awdurdodau Rheoli o holl Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd i rannu barn ar bolisi Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd a dull cyflwyno â'r Comisiwn ac â rheolwyr eraill y Rhaglen, gan gynnwys adolygiad o fodelau ymgysylltu gyda'r nod o ystyried sut y gellir gwneud pethau'n wahanol ac yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Y gweithdai rhyngweithiol oedd yn canolbwyntio ar faterion, gan gynnwys cyfeiriadedd canlyniadau, oedd wedi bod y rhai mwyaf defnyddiol yn y cyd-destun hwn. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch opsiynau cynnar ar gyfer strwythurau ar ôl 2020. Anogodd MP yr aelodau nad oeddent wedi cael y cyfle i wrando ar sesiynau'r cyfarfod llawn i wneud hynny, gan nodi eu bod ar gael ar wefan Regio.
27. Cadarnhaodd MVVD farn MP fod Cyfarfod Blynyddol Interreg yn un defnyddiol iawn a gwerthfawrogodd adborth MP ynghylch y gweithdai rhyngweithiol.
- 28. PWYNT GWEITHREDU 09.05.2017/1:**MVDV i ddod yn ôl gydag amserlen ragolygol ar gyfer penderfyniad ynghylch addasu'r rhaglen.

Eitem Agenda 5 Diweddariad Rhaglen ac Adroddiad Datblygiad

29. Cyflwynodd Linda Weaver (LW), Pennaeth y Gyd-ysgrifenyddiaeth Adroddiad Diweddarau'r Rhaglen a oedd yn crynhoi'r sefyllfa o ran gweithredu ers pumed cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ym mis

Tachwedd 2016. Roedd yn cynnwys adroddiad cynnydd ar y gweithrediadau hynny ar y cyd yn y system arfarnu, trosolwg o lefelau ymrwymo grantiau, a gwybodaeth gychwynnol am allbynnau rhagolygol ar gyfer y gweithrediadau hynny yn y system. Tynnwyd sylw at dargedau gwariant N+3 ym mharagraffau 23 a 24 er gwybodaeth, gan nodi mai'r targed cyntaf fydd diwedd 2018. Adolygodd Pennaeth y Gyd-ysgrifenyddiaeth y pwyntiau allweddol.

30. Cafwyd crynodeb o gynnydd pob Echel Blaenoriaeth (PA). Roedd naw gweithrediad bellach wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol yn PA1 a PA2 ac un yn PA4. Roedd y cynlluniau busnes hyn wedi'u hystyried gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Monitro'r Rhaglen. Mae Adran 6 yn dangos sefyllfa neilltuo ariannol y rhaglen, Mae tabl 1 yn rhoi darlun ariannol cyflawn o fusnes yn y system.

1. PA1 – prosiectau â gwerth dangosol ERDF €29m yn y system sy'n agos at y dyraniad PA, sef €31.7m;
2. PA2 – prosiectau â gwerth dangosol ERDF €28m, ychydig dros y dyraniad PA, sef €27.7m.
Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr holl brosiectau wedi bod yn ddarostyngedig i'r broses asesu fanwl ac, felly, gallai hyn newid.
3. PA3 – er nad oes prosiectau wedi'u cymeradwyo, mae prosiect yn y cam cynllunio busnes sy'n werth €5.4m o ERDF.
4. PA4 – un prosiect Cymorth Technegol cymeradwy sy'n werth €4.6m.

31. Hysbyswyd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen fod cynigion cam cynnar nad oeddent wedi'u cofnodi eto yn y cam cyn cynllunio ac, felly, nid oeddent wedi'u hystyried yn nhabl 1.

32. Cafodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen wybod i gynnig PA 1 Mwy na Chlwb gael ei ystyried gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen ym mis Chwefror. Fodd bynnag, oherwydd mater technegol, ni wnaed penderfyniad terfynol ar y pryd. Mae'r mater technegol bellach wedi'i ddatrys a bydd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn lanlwytho'r wybodaeth i'r Porth i aelodau Pwyllgor Llywio'r Rhaglen roi eu penderfyniad terfynol yn yr wythnosau nesaf.

33. Roedd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn fodlon ar y prif drefniadau ariannol ar gyfer PA 1 a PA 2 ac, erbyn hyn, roedd rhai gweithrediadau PA 3 yn yr

arfaeth, ynghyd â rhai ymholiadau cam cynnar, yn enwedig yng Nghymru. Roedd atodiadau i'r papur yn rhoi manylion am gynnydd yn ôl PA. Fodd bynnag, dylid trin targedau dangosyddion yn eithaf gofalus gan nad oedd costau'r gweithrediadau a oedd yn cael eu hasesu ar y pryd wedi cael eu herio drwy broses asesu'r Gyd-ysgrifenyddiaeth. O ran rhagolygon, byddai'r rhain yn cael eu diweddarw wrth i fwy o brosiectau gael eu cymeradwyo a symud drwy'r system arfarnu.

34. Byddai cais am PA3 yn weithredol yn fuan i gyflymu gwaith ymgysylltu ac ailsymbylu diddordeb yn y rhaglen i geisio neilltuo'r swm dangosol, sef €10million sydd ar ôl yn y PA. Disgwylwyd i'r cais agor ar 15 Mai a chau ar 28 Gorffennaf; byddai canllawiau ar gael ar wefan y Rhaglen.

35. Gan ymateb i ymholiad ynghylch cydbwysedd y cyllid gyda PA1 bron â'i neilltuo'n llwyr o'i chymharu â PA3, ac a oedd cynlluniau ar hyn o bryd i newid dyraniadau cyllid rhwng PAs, cadarnhaodd MP nad oedd yr ARh, ar y pryd, yn bwriadu ailgydbwysu'r dyraniadau ariannol gan ei fod yn parhau i fod yn hyderus y byddai PA3 yn cael ei neilltuo'n llwyr. Byddai'r sefyllfa'n cael hadolygu ar ôl dyddiad cau'r cais. Fodd bynnag, rhagwelodd yr ARh ymateb cadarnhaol i'r cais, gan gydnabod bod prosiectau wedi bod yn datblygu'n arafach nag mewn PAs eraill am resymau a nodwyd eisoes, byddai'n achub ar bob cyfle i hysbysebu cyfleoedd dan PA 3 i fuddiolwyr yn ystod y cyfnod tri mis, gan gynnwys cynnal gweithdy penodol yn Iwerddon a gadarnhawyd gan DK yn y Cynulliad Rhanbarthol Deheuol (SRA).

36. Rhoddodd LW sicrwydd i'r aelodau bod nifer o gynigion cam cynnar yn y system ar gyfer PA1 a barnwyd ei fod yn arfer da cael rhywfaint wrth gefn ar gyfer pob PA gan y byddai rhywfaint o danwariant prosiectau'n codi'n anochel ac roedd yn bwysig cael rhywfaint o hyblygrwydd i ailgyfeirio adnoddau mor gyflym â phosibl os byddai'r angen yn codi.

37. Esboniodd Jane McMillan (JM), ar gyfer yr ARh, y byddai'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn defnyddio dull cytbwys wrth ddatblygu cynlluniau busnes pan fo PA bron â'i neilltuo'n llwyr. Byddai cynigion yn aros yn y cam cyn cynllunio'n barod os daw cyllid ar gael. Byddai unrhyw fuddiolwyr yn y sefyllfa hon yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa.

38. Gan ymateb i ymholiad ynghylch ailsymbylu diddordeb mewn PA 3, cadarnhaodd LW y byddai'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn cefnogi'r cais gyda chanllawiau a dogfennaeth ddigonol ar gael ar wefan y rhaglen a byddai hefyd yn cysylltu â rhanddeiliaid unigol a oedd wedi dangos diddordeb yn

ddiweddar yn y PA hon i roi gwybod iddynt bod y cais yn weithredol. Byddai'r Gyd-ysgrifenyddiaeth hefyd yn cymryd rhan mewn gweminar a gynhelir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

39. Cadarnhaodd MVDV na fyddai'n hawdd addasu'r rhaglen i newid cronfeydd y rhaglen o un PA i'r llall, ac roedd yn cytuno â'r cynnig i gynnal digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o'r cais.
40. Gan ymateb i bwyntiau ar amseroldeb a rhwystrau canfyddedig i ddatblygu cynlluniau busnes a gyflwynwyd ar gyfer PA3, ailadroddodd LW y byddai cais PA3 yn dod i ben ddiwedd mis Gorffennaf. Ar ôl hynny, byddai'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn adolygu pob cynnig gyda phenderfyniadau'n cael eu cyhoeddi tua diwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref.
41. Roedd Breda Curran (BC), ar gyfer Swyddogion Gweithrediadau Iwerddon Cymru, yn teimlo bod nifer cyfyngedig y cynigion oedd yn cael eu cyflwyno hyd yn hyn i raddau oherwydd canfyddiad mewn rhai ardaloedd bod y broses yn 'feichus' a bod diffyg hyder ac adnoddau digonol gan rai sefydliadau trydydd sector i ymdrin â'r gofynion angenrheidiol.
42. Nododd MP, ar gyfer yr ARh, y gallai'r broses fod yn heriol i rai sefydliadau trydydd sector. Fodd bynnag, cytunwyd ar weithdrefnau ar ddechrau'r rhaglen. Roedd cymorth ar gael a rôl yr holl bartïon, yn enwedig Swyddogion Gweithrediadau Iwerddon Cymru, yw helpu yn y trydydd sector i oresgyn rhwystrau posibl rhag ymgysylltu. Pwysleisiodd MP nad oedd y PA hon yn unigryw i'r trydydd sector, roedd hefyd yn ceisio denu awdurdodau lleol a sefydliadau twristiaeth. Nodwyd hyn gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen a chytunodd aelodau sy'n gweithio yn y sectorau hyn i raeadru'r neges hon yn ôl i ategu'r cais. Cadarnhaodd JM y byddai'r neges hon yn cael ei hegluro yn nogfennaeth y cais.
43. Gan nodi cyfeiriadedd mwy strategol y rhaglen hon, pwysleisiodd LW ei bod yn gwbl agored i sefydliadau trydydd sector. Un dull posibl oedd ystyried cyfleoedd i gysylltu partïon trydydd sector â sefydliadau mwy mewn sectorau eraill i weithio fel rhan o gynigion ymbarél mwy. Roedd y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn gweithio gyda WHEEL a CGGC i sicrhau bod y cymorth angenrheidiol yn cael ei ddarparu er mwyn i gynigion allu cael eu cyflwyno.

44. Gan ymateb i ymholiad am absenoldeb dangosydd cyflogaeth penodol yn PA 2, esboniwyd mai prif ddiben y PA oedd ategu mesurau addasu ar y cyd a chodi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd. Roedd y Rhaglen wedi'i datblygu ar y sail y byddai targedau cyflogaeth yn cael eu trafod yn bennaf yn PA 1.

45. Pwynt Gweithredu 09.05.2017/2 LW i ddsbarthu manylion am Gais PA 3 i Aelodau i'w hyrwyddo i'w rhanddeiliaid.

Eitem Agenda 6 Diweddariad Cyfathrebu

46. Rhoddodd JM, ar gyfer yr ARh, y diweddaraf i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen yn dilyn trafodaethau yng Nghorc lle cytunwyd i barhau i adolygu'r strategaeth.

47. Tynnwyd sylw at y pwyntiau allweddol o'r papur. Ailadroddodd JM yr angen i sicrhau llif gwybodaeth i rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Cyfeiriodd at ymgyrch ddiweddar ar Twitter a arweiniwyd gan yr ARh yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 6 Mawrth yn targedu addysg uwch ac addysg bellach, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Roedd hyn yn rhan o ymarfer i godi proffil y rhaglen ac mewn ymateb i drafodaethau yng Nghorc. Parhaodd yr ARh i roi cyhoeddusrwydd i gymeradwyo prosiectau ar wefan y rhaglen a barhaodd i ddenu diddordeb. Yn ychwanegol, roedd y prosiectau eu hunain yn cael cyhoeddusrwydd cadarnhaol, er enghraifft roedd prosiect CHERISH wedi bod yn destun rhywfaint o ddiddordeb gan y BBC. Ers cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yng Nghorc, mae nifer y cymeradwyaethau wedi cynyddu. Wrth i'r Rhaglen gasglu momentwm, byddai'r ARh a'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn cael mwy o gyfleoedd i hysbysebu'r rhaglen trwy gyhoeddiadau a digwyddiadau lansio a fyddai, yn eu tro, yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r wefan a gweithgarwch Twitter.

48. Nod cais PA3 oedd ailsymbylu diddordeb yn y rhaglen a pharhau i hyrwyddo'r neges ei bod yn dal i fod yn gwbl agored ar gyfer busnes. Ar ôl y cais, byddai'r ARh/y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn ystyried hyd a lled y gweithgarwch cyfathrebu.

49. Rhoddodd DK wybod i'r Pwyllgor y disgwyliwyd i'r Tywysog Siarl ymweld â Kilkenny yn ystod wythnos cyfarfod Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ac ar y cyd â'r ARh, roedd SRA am ddefnyddio'r ymweliad fel cyfle i hyrwyddo'r

rhaglen. Y bwriad oedd i un o Swyddogion Gweithrediadau Iwerddon Cymru gael cyfle i siarad ar orsaf radio leol.

50. Pwysleisiodd GO'K bwysigrwydd lledaenu'r negeseuon cadarnhaol ar bob cyfle o ystyried y sefyllfa gyda Brexit, gan ailadrodd yr effaith gadarnhaol mae'r rhaglen yn ei chael ar gymunedau a phobl. Roedd angen ar draws yr UE i wneud gwariant ar bolisi'n fwy perthnasol i ddinasyddion.

51. Nododd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen y sefyllfa o ran cyfathrebu.

51. Pwynt Gweithredu 09.05.2017/3 DK i roi gwybod i aelodau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen am y digwyddiad yn Iwerddon i hysbysebu cais PA3.

Eitem Agenda 7 – Monitro a Gwerthuso – Diweddariad Adroddiad Gweithredu Blynyddol

52. Trafododd MP, ar gyfer yr ARh, y pwyntiau amlycaf.

53. Bob blwyddyn, roedd yn ofynnol i'r ARh gyflwyno Adroddiad Gweithredu Blynyddol (AIR). Roedd adroddiad 2016 i'w gyflwyno i'r Comisiwn erbyn diwedd mis Mehefin. Cyn hynny, er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau, roedd yn rhaid i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen gymeradwyo ei gynnwys.

54. O ystyried amseriad y cyfarfod hwn a'r ffaith nad oedd yr AIR drafft ar waith eto, cytunodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ystyried yr AIR drwy weithdrefn ysgrifenedig. Cadarnhaodd MP fwriad yr ARh i ddsbarthu'r AIR drafft erbyn 9 Mehefin, gyda sylwadau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen i'w cyflwyno erbyn 23 Mehefin. Byddai sylwadau'n cael eu trafod gan yr ARh ar y cyd â phartneriaid y rhaglen yn Iwerddon gyda'r bwriad o gyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Comisiwn erbyn 30 Mehefin.

55. Nodwyd y sefyllfa.

Eitem Agenda 8 pISCES – cyflwyniad prosiectau cymeradwy

56. Croesawodd y Cadeirydd Sean Lyons, o Sefydliad Technoleg Waterford, i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen. Rhoddodd gyflwyniad i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen yn disgrifio nodau ac amcanion y gweithrediad cymeradwy.

57. Diolchodd y Cadeirydd i Sean Lyons am ei gyflwyniad a chynigiodd y cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb ddefnyddiol a gofynnwyd llawer o gwestiynau manwl gan yr aelodau.

Eitem Agenda 9 Unrhyw Fater Arall

58. Achubodd SB ar y cyfle i fyfyrion ar y cyfraniad roedd DO'B wedi'i wneud i'r rhaglen a'r bartneriaeth rhwng Iwerddon a Chymru. Gan fyfyrion eu bod bellach wedi gweithio gyda'i gilydd trwy dri chylch rhaglennu Iwerddon Cymru, cydnabu SB arweinyddiaeth DO'B yng Nghymru a diolch iddo am y ffordd roedd wedi cynnal busnes ac am yr ymroddiad a'r brwdfrydedd a ddangoswyd ganddo yn y lefelau uchel o bartneriaeth a chydweithrediad effeithiol a gyflawnwyd ganddo. Dymunodd SB yn dda iddo yn ei ymdddeoliad.

59. Adleisiodd GO'K sylwadau SB mewn perthynas â chyfraniad DOB. Cydnabu ansawdd a llwyddiant y rhaglen gydweithredu a gwnaeth sylw ar y gwerth a roddir iddo gan Lywodraeth Iwerddon. Pwysleisiodd yr angen i ystyried dyfodol cydweithredu ar ôl 2014-2020. Rhoddodd GO'K bob dymuniad da i DO'B ar gyfer ei ddyfodol ac roedd yn edrych ymlaen at weithio gyda Sioned Evans fel y Prif Swyddog Gweithredol newydd.

60. Diolchodd DO'B i SB a GO'K am eu geiriau caredig a chyfeiriodd at ei hoffter o'r rhaglen a'i gwaith partneriaeth. Roedd y berthynas a gafodd ei chreu'n ddwfn, dros ugain mlynedd drwy'r rhaglen hon gyda thros €250m wedi'i neilltuo i ryw 300 o brosiectau cydweithredu sydd wedi bod o fudd i gymunedau a busnesau. Diolchodd DO'B i Lywodraeth Iwerddon, y Cynulliad Deheuol a'i gydweithwyr am eu cefnogaeth ddiflino ar lefelau swyddogol a gwleidyddol. Diolchodd i aelodau presennol a blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglen a Phwyllgor Llywio'r Rhaglen am eu cyfraniad i lwyddiant y rhaglenni dros y blynyddoedd. Wrth gydnabod rôl rhaglenni cydweithredu wrth ddatblygu perthnasoedd a chyfeillgarwch, yn ogystal â buddsoddiadau, dymunodd bob llwyddiant i'r Rhaglen yn y dyfodol.

61. Pwynt Gweithredu 09.05.2017/4 Phillipa Morgan (PM) i ddsbarthu dyddiad y cyfarfod nesaf y mae'n debygol y caiff ei drefnu ar gyfer 23 Tachwedd 2017 yn Ne Cymru.

IRELAND WALES 2007 – 2013



Cyfarfod Rhaglen Iwerddon Cymru 2007-2013

Eitem Agenda 1 – 2007-2013 Adroddiad Gweithredu Terfynol (gan gynnwys y sefyllfa ar gau rhaglenni)

1. Cadarnhaodd DK fod yr Adroddiad Gweithredu Terfynol, yn dilyn cymeradwyodd gan Bwyllgor Monitro'r Rhaglen, wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn cyn y dyddiad cau, sef Mawrth 2017. Roedd y Pecyn Cau'n cynnwys Adroddiad Terfynol, Hawliad Terfynol ac Adroddiad Rheoli Terfynol. Roedd DK yn falch o gyhoeddi fod rhaglen 2007/2013, yn dilyn cadarnhad gan y Comisiwn, wedi cyflawni cyfradd tynnu i lawr 97% a chyfradd wallau is o lawer na'r lefel berthnasedd, sef 2%. Dywedodd fod Llywodraeth Iwerddon, ar y pryd, yn aros i'r Comisiwn Ewropeaidd ymateb i'r Pecyn Cau, gan gadarnhau bod ganddo 5 mis i wneud hynny.
2. Eglurodd MVDV rôl y Comisiwn ynghylch y gwiriadau terfynol gan nodi, os byddai angen i Lywodraeth Iwerddon ymateb i gwestiynau a ofynnir gan y Comisiwn, y byddai'n cymryd dau fis i wneud hynny.
3. Llongyfarchodd DO'B ei gydweithwyr o Iwerddon ar gwblhau'r broses gau o ystyried y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r broses hon.
4. Daeth y cyfarfod i ben.

Atodiad 1 – Rhestr o'r rhai oedd yn bresennol

Enw	Sefydliad
Michael McGarth	DPER
Gwyn Evans	CLILC
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dr Fiona Harris	Awdurdod Addysg Uwch Cymru
Gavin George	Llywodraeth Cymru
Rhiannon Phillips	Llywodraeth Cymru
Jonathan Earl	Chambers Ireland
Y Cyng. Seamus Cosai Fitzgerald	Cynghorydd Cynulliad Rhanbarthol Deheuol
Deirdre Finlay	WHEEL
Dave Corcoran	Adran Cyfathrebu, yr Hinsawdd a'r Amgylchedd
Y Cyng. Brian McDonagh	E&MRA
Michael Clifford	Adran Menter Swyddi ac Arloesedd
Colm O'Connor	Adran Trafnidiaeth, Twristiaeth a Chwaraeon
Stewart Roche	Awdurdod Addysg Uwch
Marianne Van de Vorle	Swyddog Desg yr UE
Sarah Clarke	ICTU
Damien O'Brien	WEFO
Sioned Evans	WEFO
Jane McMillan	WEFO
Mike Pollard	WEFO
Linda Weaver	WEFO
Phillipa Morgan	WEFO
Geariod O'Keefee	DPER
Stephen Blair	SRA

David Kelly	SRA
Breda Curran	SRA
Marie Harnett	SRA
Caitriona Phelan	SRA
Edel Hunt	SRA

Rhestr 2 – Rhestr o ymddiheuriadau

Enw	Sefydliad
Barbara Burchell	CLIC – Gogledd Cymru
Helen Morgan	CLIC – De Cymru
Y Cyng. Meryl Gravell	CLIC – De Cymru
Y Cyng. Ronnie Hughes	CLIC – Gogledd Cymru
Yr Athro Richard Davies	Awdurdod Addysg Uwch Cymru
Dr Alastair Davies	Llywodraeth Cymru
Lucy Corfield	Llywodraeth Cymru
Deirdre Garvey	WHEEL
Patrick Lilly	WEFO
Bethan Thomas	WEFO